# MONOLOG LLEUCU

I'r mwyafrif o bobl ifanc, mae eu dechrau mewn bywyd yn un syml a di-drafferth, llawn cariad. Bydd ganddyn nhw rhieni gofalgar a bydd lluniau o gwmpas y tŷ'n cofnodi'r eiliadau cyntaf a phob carreg filltir o'r pwynt hwnnw ymlaen. Ond yn anffodus, dyw hyn ddim yn wir am bob plentyn, fel plant mabwysiedig. Bydd eu dechreuad nhw yn un tra gwahanol, llawn ansicrwydd ac yn aml iawn yn cynnwys llawer iawn o drawma.

Fel roedd Lleucu'n sôn yn ei monolog hi, cafodd ei mabwysiadu yn ddwy oed. Cafodd ei magu, ers ei bod hi'n cofio, gan ddwy fam gariadus ac ANHYGOEL, Mam a Mami. Yn anffodus, doedd ei mam fiolegol ddim yn gallu edrych ar ei hôl, ac mae meddwl am hynny'n anodd, ond dyw Lleucu bron byth yn meddwl amdani hi erbyn hyn.

Fel y gweli di, mae Lleucu mewn ychydig o ddilema ar hyn o bryd. Mae hi eisiau gwybod mwy am ei bywyd cynnar. Roedd hi'n rhy ifanc ar y pryd i gofio unrhywbeth.

**Beth wyt ti'n meddwl dylai Lleucu ei wneud?**

Oes rhai pethau sy'n gwneud i ti feddwl am atgof arbennig neu leoliad arbennig, fel y teimlodd Lleucu gyda thegan y draenog?

**Wyt ti erioed wedi cysylltu arogl gyda lle?**
**Wyt ti erioed wedi cysylltu sŵn neu gân gyda rhywbeth neu rhywle arbennig?**


Dydy Lleucu ddim yn gwybod a ddylai hi ofyn i'w rhieni am fwy o wybodaeth ynglŷn â'i bywyd cynnar, cyn iddi gael ei mabwysiadu? Beth fyddai'n rhwystro Lleucu rhag gofyn? A fyddech chi'n mentro gofyn?

**Oedd Lleucu'n teimlo'n wahanol am ei bod hi wedi ei mabwysiadu? Sut ydy cariad teuluol yn edrych?**
**Sut ydyn ni'n dangos cariad at ein teuluoedd?**
**Beth ydyn ni'n gymryd yn ganiataol sy'n ein diogelu ni o ddydd i ddydd?**

Oes gen ti awgrym i Lleucu i'w helpu i gofio nôl i'w blynyddoedd cynnar?



# TASGAU



**Creu cist 'Trysorau Bywyd Cynnar'**

Beth fyddet ti'n ei gynnwys mewn cist drysor i gofio dy blentyndod? Oes rhywbeth arbennig rwyt ti'n ei gofio pan oeddet ti'n blentyn bach? • Beth am...

- **Dedi?**
- **Llun?**
- **Rattle?**
- **Dilledyn neu flanced?**
- **Llyfr arbennig?**

Trafoda'r hyn rwyt ti wedi rhoi yn dy gist. Eglura pam fod y trugareddau hyn yn dwyn cymaint o atgofion. Cofia, gelli di fynd at y gist yma unrhyw bryd y byddi di'n teimlo'n ansicr neu'n sigledig. Gelli di edrych trwy dy bethau i gofio bod gen ti deulu sy'n dy garu di ac yn meddwl y byd ohonot ti!

**Trafodaeth**

Mewn grwpiau bach, trafodwch y cwestiwn hwn.

**"Beth sy'n gwneud teulu?"**

Gallwch chi ddefnyddio'r agoriadau yma i'ch helpu wrth drafod.

- **Yn fy marn i...**
- **Cytunaf gyda'r gosodiad oherwydd...**
- **Anghytunaf gyda'r gosodiad oherwydd...**
- **Dydw i ddim yn meddwl bod angen cael tad a mam go iawn er mwyn teimlo yn rhan o deulu oherwydd**

- **Credaf...**
- **Does dim amheuaeth**
- **Cytunaf gyda ti oherwydd...**
- **Anghytunaf gyda ti oherwydd...**
- **Ond, beth am ystyried...**
- **Teimlaf**
- **Wyt ti wedi ystyried..?**